Datganiad i'r Wasg gan Sefydliad Joseph Rowntree
Dan embargo tan: 00.01 o'r gloch ar 4 Mehefin 2008

Y mae ar Gymru wledig angen mwy o gartrefi y gall pobl eu fforddio

Y mae adroddiad a gyhoeddir heddiw (4 Mehefin) yn galw am gynnydd enfawr yn y cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru wledig. Cenfydd fod yr angen am dai sydd heb ei ddiwallu yng Nghymru wledig ar gynnydd: fod tai'n mynd yn ddrutach; fod mwy o bobl yn ddigartref; a bod llai byth o dai cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig nag sydd mewn trefi a dinasoedd. Y mae'n galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol i wneud mwy a bod yn fwy craff a deallus er mwyn sicrhau bod anghenion tai yng Nghymru wledig yn cael eu diwallu.

Y mae *Comisiwn Sefydliad Joseph Rowntree ar Dai Gwledig yng Nghymru* wedi treulio'r wyth mis diwethaf yn dadansoddi data ystadegol newydd a phresennol, yn derbyn tystiolaeth ac yn gwrando ar bobl ledled y wlad er mwyn pwyso a mesur y broblem tai yng Nghymru wledig.

Y mae cyfartaledd prisiau tai bellach fwy na phum gwaith yn uwch na chyfartaledd incwm aelwydydd ym mhob awdurdod lleol gwledig. Y mae niferoedd uchel o'r boblogaeth wledig yn cael eu hatal rhag cael tai gweddus a fforddiadwy yn eu cymunedau lleol neu'n agos atynt. Canfu'r Comisiwn, oni bai y gwneir newidiadau sylweddol, fod perygl gwirioneddol y bydd rhannau o Gymru wledig yn colli'r genhedlaeth nesaf o bobl ifanc. Gallai hyn achosi problemau cymdeithasol, diwylliannol a phroblemau o ran lles i gymunedau gwledig yn y dyfodol. Y mae cynlluniau cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru'n uchelgeisiol, ond y mae angen iddynt wneud mwy er mwyn diwallu'r angen am dai yng Nghymru wledig.

Y mae gan y Comisiwn nifer o argymhellion o ran sut y gellid darparu mwy o dai fforddiadwy:

- Gellid gwneud gwell defnydd o'r stoc dai bresennol – amcangyfrifa'r Comisiwn fod hyd at 18,000 o dai gwag mewn ardaloedd gwledig;
- Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu a hyrwyddo arfer da ar gyfer awdurdodau lleol o ran sut i ailddechrau defnyddio anheddau gweigion;
- Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio cyfran sylweddol o'r dreth gyngor ar ail gartrefi er mwyn ymateb i anghenion tai yn eu hardaloedd. Un awgrym ar gyfer defnyddio'r arian yw sefydlu rhwydwaith o Hwyluswyr Tai Gwledig a fyddai, ymhlith dyletswyddau eraill, yn helpu i ganfod anghenion a chwilio am safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy.

Er mwyn cwrdd â'r anghenion strategol hyn, y mae'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad sicrhau bod ganddi ddigon o adnoddau mewnol. Dylai awdurdodau lleol ystyried cydariannu staff arbenigol ym meysydd tai a chynllunio, er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn defnyddio'r system gynllunio'n fwy effeithiol ac mewn ffordd fwy arloesol.

Cafodd y Comisiynwyr siom o ganfod nad yw ystadegau allweddol ar faint newidiol anghenion tai yng Nghymru wledig yn cael eu cyfosod a'u dadansoddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a llywodraeth leol ar hyn o bryd. Yr oedd hyn yn ei gwneud yn anodd mesur hyd a lled y broblem a'r adnoddau y mae'u hangen er mwyn mynd i'r afael â hi. Y mae hefyd yn codi cwestiynau o ran sut y mae'r Llywodraeth yn gallu cadw golwg fanwl ar y broblem pan nad yw'n cyfosod data o ansawdd.

Meddai Derec Llwyd Morgan, Cadeirydd y Comisiwn: "Canfu'r Comisiwn fod angen enfawr am dai fforddiadwy yng Nghymru wledig, angen nad yw'n cael ei ddiwallu ar hyn o bryd. Y mae angen gweithredu ar fyrder er mwyn cwrdd â'r angen. Y mae pwerau'n bodoli ar lefel leol a chenedlaethol i wella'r sefyllfa, ond er mwyn cael ymateb cadarn bydd yn rhaid wrth gydweithrediad, arloesi, arweiniad cryf ac ewyllys wleidyddol gref."

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion

1. Y mae'r adroddiad llawn a'r canfyddiadau: *Comisiwn JRF ar Dai Gwledig yng Nghymru* ar gael i'w lawrlwytho'n rhad ac am ddim o www.jrf.org.uk.
2. Bydd y Comisiwn yn lansio'i ganfyddiadau am 10am ar 4 Mehefin yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystafelloedd pwyllgora 21, 22 a 23. Os hoffech fynychu, cysylltwch â Charlotte Morris ar y rhif isod.
3. Lansiwyd Comisiwn JRF ar Dai Gwledig yng Nghymru ym mis Hydref 2007. Y mae gan y Comisiwn chwe aelod annibynnol, sy'n cynnwys Derec Llwyd Morgan fel Cadeirydd, a'r Athro Paul Milbourne (Prifysgol Caerdydd) fel ymgynghorydd academaidd.
   Darparodd JRF gymorth ariannol ac ysgrifenyddol ar gyfer y Comisiwn. Gofynnwyd i'r Comisiynwyr dderbyn tystiolaeth ar anghenion tai gwledig er mwyn llunio cyfres o sylwadau ac argymhellion ar gyfer yr holl wneuthurwyr polisi ac ymarferwyr a allai fod yn sail i gytundeb ar gyfer darparu datrysiadau cynaliadwy. Darfu i'r Comisiwn gasglu tystiolaeth drwy adolygiad o lenyddiaeth, ymweliadau â safleoedd, proses ymgynghori ysgrifenedig, chwe sesiwn derbyn tystiolaeth ledled Cymru, dwy sesiwn ymgynghori-â'r-cyhoedd a chynadleddau ffôn. Galluogodd hyn y Comisiwn i gwrdd a thrafod â thros 60 o drefnyddiaethau, nifer o wneuthurwyr polisi neu ymarferwyr unigol ym maes tai a nifer o aelodau o'r cyhoedd.
4. Y mae Sefydliad Joseph Rowntree yn un o'r elusennau mwyaf sy'n ymwneud ag ymchwil a datblygu ym maes polisi cymdeithasol yn y DU. Y mae'n rhoi cymorth i raglen sydd wedi'i bwriadu i geisio deall achosion anawsterau cymdeithasol ac archwilio ffyrdd o'u goresgyn.

Cyhoeddwyd gan Charlotte Morris, Uwch Reolwr Cysylltiadau â'r Cyfryngau yn Sefydliad Joseph Rowntree:
07800 615 105 / 01904 615 919 / 020 7278 9665
charlotte.morris@jrf.org.uk